

Vaughan Gething AC/AM  
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MAP-VG-3447-19

Lynne Neagle AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1 Hydref 2019

Annwyl Lynne,

Mae'n bleser gennyf roi gwybod i'r Pwyllgor, ers penodi'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Iechyd Meddwl Amenedigol, bod Rhwydwaith Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru yn awr wedi'i sefydlu yn ffurfiol. Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol wedi canolbwyntio ar ddatblygu cysylltiadau rhwng gwasanaethau ledled Cymru a datblygu dealltwriaeth gyffredin o statws cyfredol y gwasanaethau yn ogystal â disgwyliadau ar gyfer datblygu i'r dyfodol. Mae'r gwaith hwn wedi'i flaenoriaethu oherwydd amrywiadau mewn datblygu ymarfer a gwasanaethau yn ardaloedd y byrddau iechyd ac mae'n cefnogi cyfathrebu cyfeiriad strategol disgwyliedig y gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol yn glir. Er mwyn datblygu'r cysylltiadau hyn, mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol wedi meithrin cysylltiadau â byrddau iechyd i'w cefnogi i sefydlu neu newid pwyslais eu grwpiau llywio iechyd meddwl amenedigol. Bydd hyn yn helpu byrddau iechyd unigol i ddatblygu cynlluniau gwaith sy'n canolbwyntio ar bartneriaethau, llwybrau, pobl a pherfformiad. Bydd y cynlluniau gwaith hyn yn ategu themâu'r cynllun gwaith cenedlaethol sydd wedi'i strwythuro i gymell yr un amcanion.

Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd mewn nifer o feysydd eraill, ac un o'r llwyddiannau cynnar oedd sefydlu fforymau proffesiynol ar gyfer bydwragedd, ymwelwyr iechyd, ymarferwyr iechyd meddwl, arweinwyr timau arbenigol, seicolegwyr a seiciatryddion. Bydd y fforymau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r rhwydwaith ehangach, ac yn datblygu ymarfer clinigol. Mae'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol wrthi'n gweithio gyda'r Rhwydwaith Newyddenedigol i lunio *'Canllawiau Cymru Gyfan ar gyfer Meddyginiaeth Seicotropig a'r Baban Newydd-anedig'* ar ôl ei nodi fel maes lle gellir gwneud gwelliannau i'r llwybr clinigol.

Gyda'r Arweinydd Clinigol Cenedlaethol bellach yn ei swydd, a'r Rhwydwaith wedi'i sefydlu, rwy'n disgwyl y bydd y gwaith o roi ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y pwyllgor, a gyhoeddwyd XX, ar waith yn cyflymu. I gefnogi hyn, rydym hefyd wedi darparu adnoddau ychwanegol i'r tîm rhwydwaith craidd gyda dwy swydd newydd, sydd wedi'u creu i roi cymorth rheoli prosiectau. Mae'r tîm rhwydwaith craidd hwn wedi ailsefydlu cyfarfodydd y grŵp Cymuned Ymarfer sy'n rhoi cyfleoedd cymorth i gymheiriaid a rhannu arferion da.

Yn unol ag argymhellion yr Adroddiad Iechyd Meddwl Amenedigol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud cynnydd wrth ddatblygu set ddata graidd iechyd

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

meddwl. Bydd y set ddata yn sicrhau mecanweithiau ffurfiol ar gyfer casglu data rheoli perfformiad a chanlyniadau gan y gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol cymunedol newydd sydd wedi'u sefydlu. Fel gydag unrhyw wasanaeth iechyd newydd, mae adeiladu system casglu data sy'n gynhwysfawr a chadarn yn broses gymhleth ac yn cymryd amser. Mae'r gofynion data ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol wedi'u cynnwys yn y set ddata ac mae dau weithdy i randdeiliaid wedi'u cynllunio ar gyfer mis Hydref i gydgrynhoi'r data i'w casglu a sicrhau y defnyddir diffiniadau cyson. Tra bod y systemau casglu data ffurfiol yn cael eu sefydlu, fel rhan o'r gwaith o fonitro gwasanaethau cymunedol mewn byrddau iechyd, rydym yn parhau i ofyn am wybodaeth gan gynnwys y nifer o staff mewn swyddi, nifer yr atgyfeiriadau ac ymyriadau a gynigir bob chwe mis.

Mae'r data yn anghyflawn oherwydd nad yw pob bwrdd iechyd wedi gallu casglu'r holl wybodaeth berthnasol eto, er bod yr holl fyrddau iechyd yn gwella eu capasiti casglu data i hwyluso hyn, ac mae'n ddealladwy bod hyn yn cymryd amser. Er nad yw'r data yn gyflawn, maent yn rhoi syniad o nifer y gweithgareddau a lleoliadau'r triniaethau.

O fewn y data a gafwyd, rhoddodd y byrddau iechyd wybod am ystod eang o ymyriadau a gynigir yn eu gwasanaethau. Roedd y rhain yn cynnwys;

- ymyriadau unigol fel therapïau gwybyddol ymddygiadol, therapïau dadansoddi gwybyddol, techneg REWIND, rheoli gorbryder ynghylch genedigaeth
- ymyriadau grŵp fel therapi ymddygiad dialectegol, grwpiau chwarae a datblygu
- sesiynau llesiant
- cynllunio genedigaeth
- adolygu meddyginiaeth
- cyngor proffesiynol, cyfeirio ac addysg
- rheoli argyfyngau

Mae byrddau iechyd hefyd wedi ymateb i gais Llywodraeth Cymru i adrodd ar gyfansoddiad y Timau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymunedol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu data gweithlu gan fyrddau iechyd fel mater o drefn ac felly dim ond cipolwg o gyfansoddiad y staff y mae'r wybodaeth a ddarperir yn ei roi. Ond rydym yn ymwybodol bod byrddau iechyd unigol yn creu timau amenedigol sy'n cynnwys amryw o rolau gan gynnwys bydragedd amenedigol arbenigol, ymwelwyr amenedigol arbenigol, seicolegwyr, nyrsys seiciatrig cymunedol, therapyddion galwedigaethol a gweinyddesau meithrin.

Yn ôl y data a gafwyd ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2018 i 31 Mawrth 2019, cafwyd cyfanswm o 2,667 o atgyfeiriadau ledled Cymru, a chafodd 2,320 o'r atgyfeiriadau eu derbyn. Mae amrywiant sylweddol rhwng byrddau iechyd, gyda nifer yr atgyfeiriadau a gafwyd yn amrywio o 55 i 794 ar gyfer y cyfnod dan sylw. Rhoddodd y byrddau iechyd amryw o resymau dros wrthod atgyfeiriadau, gan gynnwys nad oedd yr atgyfeiriadau yn briodol ar gyfer y gwasanaeth, menywod ddim angen yr atgyfeiriadau bellach, a'r menywod a atgyfeiriwyd ddim bellach yn bodloni'r meini prawf ar gyfer cael eu hatgyfeirio. Rhoddodd y byrddau iechyd wybod eu bod yn cyfeirio ar gyfer atgyfeiriadau amhriodol. Ar hyn o bryd, mae'r Rhwydwaith wrthi'n adolygu swyddogaethau'r timau arbenigol hyn i sicrhau bod menywod ledled Cymru yn cael gofal priodol.

O fewn y data a roddwyd i Lywodraeth Cymru, cafodd 928 o fenywod eu trin am salwch meddwl amenedigol gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, cafodd 32 o fenywod eu trin gartref neu gan dîm argyfwng, cafodd 16 o fenywod eu trin mewn uned i famau a babanod a chafodd 11 o fenywod eu trin ar ward seiciatrig i oedolion heb eu baban. Ni chafodd unrhyw fenyw ei thrin ar ward seiciatrig i oedolion gyda'i phlentyn. Dylid nodi hefyd y dylid edrych ar y ffigurau hyn fel rhai dangosol oherwydd statws anghyflawn y data ac nid ydynt yn adlewyrchu cyfanswm nifer y menywod sydd wedi'u trin mewn lleoliadau amenedigol. Roedd yr achlysuron o drin menywod mewn unedau mamau a babanod yn brin. Ond rwy'n ymwybodol bod yr adborth yn awgrymu bod y niferoedd isel o fenywod sy'n cael triniaeth

mewn uned i famau a babanod wedi'u cymell i raddau helaeth gan argaeledd cyfyngedig y cyfleusterau mewn lleoliadau priodol yn hytrach na'r galw isel amdanynt.

Felly mae ein hymrwymiad i sefydlu Uned i Famau a Babanod yng Nghymru yn parhau ac mae'r gwaith hwn, dan arweiniad y Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC), yn cael ei ddatblygu fel blaenoriaeth. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae gweithredu gwasanaeth arbenigol o'r fath yn gymhleth ac mae angen ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys lleoliad, gweithlu ac eiddo. Mae Grŵp Rheoli WHSSC wedi bod yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i ddatblygu achos busnes i sefydlu Uned Mamau a Babanod chwe gwely yn y rhanbarth. Mae'r gwaith cynllunio dangosol diweddaraf a nodwyd gan y Bwrdd Iechyd yn awgrymu y bydd yr Uned yn weithredol erbyn haf 2021. Rwy'n bryderus bod yr amserlen wedi llithro ac felly rwyf wedi gofyn i'm swyddogion weithio gyda WHSSC a Bae Abertawe i edrych yn gyflym ar ddewisiadau ar gyfer ateb dros dro a/neu i gyflymu'r gwaith cynllunio. Mae'r trafodaethau hyn yn cael eu cynnal ar frys.

Yn ein diweddariad blaenorol ym mis Chwefror gwnaethom amlinellu ein disgwyliad y dylai gwasanaethau cymunedol ar gyfer iechyd meddwl amenedigol fodloni Safonau Iechyd Meddwl Amenedigol Cymru Gyfan erbyn mis Mawrth 2020 a bodloni safonau ansawdd perthnasol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ganlynol. Bydd y rhain yn gerrig milltir amlwg i Lywodraeth Cymru eu monitro yn ystod cyfnod Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.

Mae iechyd meddwl amenedigol hefyd wedi'i wneud yn flaenoriaeth ar gyfer y cyllid gwella gwasanaeth iechyd meddwl sy'n dechrau o 2019/20, gyda byrddau iechyd yn buddsoddi £500,000 ychwanegol y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl amenedigol.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi, a byddaf yn rhoi ddiweddariad pellach eto mewn chwe mis, fel y cytunwyd gyda'r Pwyllgor.

Yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services